Cyfnod y llafur caled ar y ffermydd ydoedd – cyn dyfodiad y peiriannau amrywiol. Felly, cyflogid gweision a morynion i gynorthwyo gyda'r gwaith. Gan mai gŵr dibriod oedd Abel Thomas ym 1891 – y flwyddyn y dyfynnir o'r digwyddiadau, cadwai yntau was a morwyn, sef Dafydd ac Alice. Gwelir eu henwau'n gyson yn y dyddiadur, yn enwedig yn y cofnodion am Suliau'r flwyddyn. Roedd y tri ohonynt yn ffyddlon i'r Ysgol Sul a'r cyfarfodydd.

Rhydd Abel Thomas wybodaeth am y testunau y pregethid arnynt, a phan na fyddai ef yn y cwrdd, deuai Dafydd neu Alice â gwybodaeth fanwl iddo parthed yr hyn a fu o dan sylw. Dengys y cofnodion faint y sêl cynhenid ymhlith y brodorion. Mae'n dra gwahanol heddiw, tua chanrif yn ddiweddarach.

Diddorol yw cynnwys rhai cofnodion sy'n ymwneud â chrefydd o ddyddiadur Abel Thomas am y flwyddyn 1891. Canfyddwn fod y Sul wedi ei rannu'n dair rhan:

January 18. Sunday
gartref, Dafydd yn yr ysgol
yn y cwrdd, Testun Eseciel 36:28
'Cewch drigo hefyd yn y tir a roddais i'ch tadau;
a byddwch yn bobl i mi, a minnau a fyddaf Dduw i chwithau'.
mynd i Penllain ar cwrdd yn Clynbyr

February 8. Sunday
gartref, Dafydd ac Alice yn y cwrdd, testun
Esaiah 1; 29, 30, 31.
'Canys cywilyddiant o achos y derw a
chwennychasoch; a gwarthruddir chwi
am y gerddi a ddetholasoch.
Canys byddwch fel derwen â'i dail yn syrthio, ac fel gardd heb ddwfr iddi.
A'r cadarn fydd fel carth, a'i weithydd fel
gwreichionen: a hwy a losgant ill dau ynghyd,
ac ni bydd a'u diffoddo'.

February 22. Sunday
yn cwrdd mawr, testun Habacuc 3:2
'Clywais, O Arglwydd, dy air, ac ofnais; O
Arglwydd, bywha dy waith y'nghanol
y blynyddoedd, ac yn dy lid cofia drugaredd'.
yn ysgol gwarcoed
cwrdd yn felincwm

March 1. Sunday

Dafydd yn ysgol Esgerdawe, Alice yn ysgol Penllain
yn cwrdd Esgerdawe, testun Habacuc 2: 1, 2, 3
yn cwrdd Rhydfallenisaf

March 22. Sunday

yn cwrdd mawr yn Esgerdawe
yn ysgol Blaenddol
yn gwilad Dan bach Maespwll

March 24. Tuesday

Alice yn angladd Dan bach Maespwll

April 26. Sunday

yn ysgol Penllain
yn cwrdd Esgerdawe, testun Psalm 110:3
'Dy bobl a fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth, mewn harddwch sancteiddrwydd o groth y wawr: y mae gwlith dy enedigaeth i ti'.
gartref, cwrdd yn Esgerdawe

May 17. Sunday

yn cwrdd Esgerdawe, tes Matthew 25:24
'A'r hwn a dderbyniasai yr un dalent a ddaeth, ac a ddywedodd, Arglwydd, mi a'th adwaenwn di, mai gŵr caled ydwyt, yn medi lle nis hauaist, ac yn casglu lle ni wasgeraist'.
yn cwrdd Rhydfallenganol

May 31. Sunday

Dafydd ac Alice yn y cwrdd
yn ysgol Maespwll
yn cwrdd Maesyrhenarth

June 7. Sunday

yn ysgol Maestile
yn cwrdd, ateb yr ail benod o Ioan
yn cwrdd tycwrdd

June 28. Sunday

gartref, Alice a Dafydd yn y cwrdd
yn ysgol Clynbyr
yn cwrdd gweddi yn tycwrdd

July 19. Sunday

gartref, Alice yn ysgol Maesyrhenarth
yn cwrdd, un o China yn pregethu
yn cwrdd 6, Arvon Davies Wynne

August 23. Sunday
yn ysgol Clynbyr
yn wilnos Jacki Wern

August 30. Sunday
yn ysgol Wern a dau gwrdd Esgerdawe

October 11. Sunday
gartref trwy y dydd, garw iawn

November 1. Sunday
yn cwrdd mawr
yn ysgol Blaenddol

November 3. Sunday
yn cwrdd diolchgarwch y borau[20]

**Teulu'r Johnes, Dolau Cothi**

O ganlyniad i garedigrwydd Herbert Lloyd-Johnes, ar ran teulu'r Johnes, Dolau Cothi a Syr James Hills-Johnes yn cyflwyno capel Esgairdawe a'r gladdfa i ymddiriedolwyr yr eglwys, buddiol yw rhoi ychydig o hanes rhai o'r teulu. Disgynyddion o deulu enwog y Jonesiaid Abermarlais, Llansadwrn oeddynt – o hil Syr Elidir Ddu o'r Crug, Llandeilo Fawr ac Ednyfed Fychan, a fu farw ym 1240. Gellir eu holrhain hefyd yn ôl i'r bumed ganrif, o hil y Llwydiaid ac Urien Rheged.

Saif Dolau Cothi nid nepell o lan afon Cothi ger Pumsaint. Bu'r plasty'n gartref i ddisgynyddion o deulu'r Johnes hyd 1941, pan gyflwynwyd yr eiddo (gydag amod parthed llog bywydol y perchennog, Mr. Lloyd-Johnes), gan gynnwys gwaith aur enwog y Rhufeiniaid, i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Gwnaed hyn, felly, gan yr Uchgapten H.J. Lloyd-Johnes er cof am hen deulu'r Johnes, ac yn arbennig am y Cadfridog, Syr James Hills-Johnes. Yna, ar farwolaeth y perchennog ym 1956, daeth yn eiddo diamod i'r Ymddiriedolaeth.

Un o'r teulu hwn oedd Thomas Johnes, Yr Hafod, Ceredigion. Ei ail wraig oedd ei gyfnither, Jane Johnes, Dolau Cothi. Yn fuan wedi iddynt briodi ym 1782, aethant i fyw i'r Hafod, lle paratowyd plasty Gothig newydd iddynt, wedi ei amgylchu â gerddi prydferth ac ogofau creigiog. Daeth Thomas Johnes yn ddehonglwr dulliau newydd o amaethu ar ei ystâd fynyddig, wyllt. Cyflwynodd gnydau newydd a gwella bridiau defaid a gwartheg. Lle ceid tir a oedd yn anaddas ar gyfer cnydau, plannwyd coed yn helaeth:

> There were many landowners in South West Wales who were enthusiastic planters of trees. The most notable of them all was the amazing Thomas Johnes of Hafod . . . Between 1796 and 1811, he planted some four million trees, mainly larch and oak on land unsuitable for crop raising around his home. Interestingly enough, most of the young plants came from a nursery known as Hindes's at Newcastle Emlyn.[21]

O ganlyniad i'w lwyddiant gyda hyn o waith, enillodd fedal aur Cymdeithas y Celfyddydau ar bum achlysur.

Roedd yn garedig i'w denantiaid. Cododd ffermdai a thyddynnod newydd iddynt, yn ogystal ag eglwys ac ysgol ar gyfer merched. Gofalodd hefyd fod yna wasanaethau meddygol i'w cael ar gyfer tlodion yr ardal. Ym 1799, cyhoeddodd lyfr, *A Cardiganshire Landlord's Advice to his Tenants,* lle rhoddodd arweiniad ar bob agwedd o amaethu. Yn ei blasty, 'roedd ganddo gasgliad o gelfyddydau cain a llyfrgell fawr yn cynnwys llawer o lawysgrifau gwerthfawr. Roedd ganddo ei wasg ei hun, a byddai'n argraffu cyfieithiadau o hanes digwyddiadau hynafol Ffrengig. Ond, er ei fod yn ŵr dysgedig a chymwynasgar, aeth i drafferthion ariannol dybryd yn ystod ei flynyddoedd olaf. Bu farw ym 1816 mewn cartref bychan yn swydd Dyfnaint, ac yntau mewn dyled o hanner can mil o bunnau.

Atgyweiriwyd llawer ar blasdy Dolau Cothi ar hyd y blynyddoedd. Dyma sylw a wnaed gan John Johnes a oedd yn byw yno ym 1787, – 'the poor old place is going to decay'. Felly, gwnaed atgyweiriadau ym 1789 a bu John Nash yn ychwanegu llawer at yr adeilad a gwneud gwelliannau o 1792-1796, yn arbennig y tu mewn. Yna, ar ddechrau'r ganrif ddilynol, ychwanegwyd dwy asgell at yr adeilad. Roedd ar ffurf ciwb, yn dri llawr gydag wyth ar hugain o ystafelloedd. Ym 1873, cynhwysai'r ystâd 3,172 o erwau.

Yr olaf o linach wrywaidd teulu'r Johnes i fyw yn y plasty oedd y Barnwr John Johnes, a lofruddiwyd yn ei gartref ym 1876, gan ei fwtler, Henry Tremble. Cyfrifid y Barnwr John Johnes fel un o'r rhai mwyaf parchus yn y wlad. Dangosai degwch ymarferol tuag at ei denantiaid fel y gwnaeth Thomas Johnes. Cymerai ddiddordeb mawr mewn pethau Cymreig. Ef, ar un llaw, oedd yn gyfrifol am gyflawni'r weithred gyfreithiol ynglŷn â phrydles capel presennol Esgairdawe ym 1845. Felly, pan ddigwyddodd y drychineb, 'roedd yn annirnadwy pam y cyfarfu person o'i fath ef â marwolaeth mor erchyll. Claddwyd

ef ym mynwent eglwys Caeo.

Yna, trosglwyddwyd yr ystâd i Elizabeth, merch y barnwr, a ymbriododd ym 1882 â'r Cadfridog Syr James Hills, a fabwysiadodd y cyfenw Johnes yn ychwanegol at ei enw. Ganed ef yn Neechindipur, Bengal, India ar Awst 20fed, 1833. Pan oedd yn ugain oed, ymunodd â Magnelaeth Bengal, gan wasanaethu yng ngwrthryfel yr India. Roedd ymysg y mwyaf mentrus a disglair o holl saethwyr Bengal a ddaeth i'r frwydr. Ar Orffennaf 9fed, 1857, cymerodd ran mewn brwydr a enillodd iddo yr anrhydedd uchaf a gyflwynir gan Brydain Fawr am ddewrder, sef y 'Victoria Cross'. Anafwyd ef y pryd hwnnw, ac yn ddiweddarach, dyrchafwyd ef yn weinydd i'r Arglwydd Canning, llywodraethwr yr India. Ym 1862, penodwyd ef yn gomisiynydd cynorthwyol yn Nepal. Yn ogystal, dyrchafwyd ef yn Gyrnol Lifftenant ym 1868 a chafridog ym 1879, ac ymddeolodd o wasanaeth gweithredol ym 1888.

Ar un adeg, 'roedd Syr James yn berson amlwg yn sir Gaerfyrddin. Roedd yn Uchel Sirydd ym 1886 a Dirprwy Arglwydd Lifftenant. Bu'n gadeirydd Cymdeithas Diriogaethol y sir a Chymdeithas y Siroedd Unedig. Ef hefyd oedd Dinesydd Breiniol cyntaf Caerfyrddin, a hynny ym mis Mawrth, 1910. Gweithiodd yn galed yn ardaloedd Pumsaint a Chrug-y-bar o blaid addysg:

> Mae dau Lywodraethwr Lleol dros bob ysgol... Cyferfydd y Llywodraethwyr yn fisol yn y Coronation Hall, Pumsaint. Hyd ei farw, ym 1919, Sir James Hills-Johnes fu y Cadeirydd... swyddog cymwys yn teimlo mawr sêl dros addysg y rhanbarth.[22]

Bu farw ar Ionawr 3ydd, 1919 yn bedwar ugain a chwech mlwydd oed a chladdwyd yntau ym mynwent eglwys Caeo.

Gyda marwolaeth Syr James a'i briod, trosglwyddwyd Dolau Cothi, drwy'r linach fenywaidd eto, i'r Llwydiaid, y rhai hefyd a ychwanegodd Johnes at eu henwau. Yn ôl yr hynafiaethydd, yr Uchgapten Herbert Lloyd-Johnes, cymerwyd y tŷ gan y Weinyddiaeth Gyflenwi yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ond ychydig iawn a ddefnyddiwyd ohono. Ymhen rhai blynyddoedd, cwympodd y llawr a dygwyd y plwm oddi ar y to. Dymchwelwyd yr adeilad tua 1952 a dyna ddiwedd un o gartrefi hanesyddol sir Gaerfyrddin, y cyfeirid ato mewn dogfen, dyddiedig 1704, fel 'Tyddyn Dole Cothy'.

Ar un adeg, 'roedd llun lliw o Syr James Hills-Johnes i'w weld ar fur y neuadd ym Mhumsaint, gyda'r geiriau canlynol ar y ffrâm:

> Presented by the Parishioners of Caio and Llanycrwys in Honoured and Affectionate memory of General Sir James Hills-Johnes, V.C., G.C.B., LL.D. of Dolaucothy 1919

Ceir dwy gerdd i'w goffáu am ei wasanaeth i'w fro. Dyma ran ohonynt:

GWYN EI FYD
In Loving and Reverent Memory of
Lieut-Gen. SIR JAMES HILLS-JOHNES,
V.C., G.C.B., LL.D., DOLAU COTHY

From morn to life's sunset he laboured
For others, true servant of God;
And now from earth's toil and endeavour,
The pathway of stars he has trod.
Sleep soldier and saint, by the Annell,
Till angels of glory shall smile
To welcome thy glad resurrection,
Our waiting is but for awhile.

ANELLYDD 1919[23]
(Arthur Simon Thomas, Corner House, Caio
Offeiriad, Bardd, Llenor)

GWYN EI FYD Alaw – Y Fwyalchen

Llon gyfaill plant bach oedd y gwron,
Hael noddwr athrawon a dysg,
Maent hwy ac mae rhinwedd a chrefydd
Fil tlotach o'i golli o'u mysg;
Ond colled y ddaear fu ennill
Paradwys, fro wiwlys ddiglwyf,
Mae Eglwys y nef yn gyfoethog,
Os gwacach hen Eglwys ei blwyf.

ANELLYDD[24]

Cyfeiriwyd at rai claddedigaethau a gofnodwyd gan weinidogion yr eglwys, a diddorol yw cyfeirio at un o arferion y dyddiau gynt i goffáu'r meirw. Byddai beirdd lleol yn ysgrifennu marwnadau, yn arbennig pan gleddid aelodau ifainc o'r capel a'r fro. Bardd a wnai hynny yn ardal Esgairdawe oedd Thomas Jones, Gwar-coed a dyma enghreifftiau o'i waith:

## ER SERCHUS GOF

am

## EVAN JOHN

Anwyl fab John ac Anne Evans, Rhydfallenissa, Esgerdawe
Yr hwn a hunodd Tachwedd 28ain, 1918
YN BYMTHEG MLWYDD OED

Hoff Evan-John – blodeuyn prydferth
  Yn perarogli'r bore gwiw,
Ond cyn i'r haul ddod yn ei anterth,
  Ei alw ga'dd yn ol at Dduw;
Ai tybed iddo gael ei ddanfon
  I'n daear, gyda'i degwch hardd,
Er dangos inni pa mor dlysion
  Yw blodau yn y Nefol Ardd?

Prydferthwch gaed yn hwn o'i febyd, –
  Blagurai swyn ar sang ei droed,
Gyfaned cadwyn oedd ei fywyd,
  Ac yntau'n marw'n bymtheg oed;
Ei holl gyfoedion yn yr ysgol
  A garent ei gwmpeini llon,
Hawddgared oedd ei wenau siriol, –
  'Roedd pawb yn hoff o Evan John.

'Roedd Capel bach y Wern yn agos,
  Ac hoff, i'w feddwl ifanc, glan,
A byddai ef ar lawer hwyrnos
  Mewn tyner don, yn dechrau'r gan;
I'r Ysgol Sul yn ffyddlon aethai,
  I wylaidd chwilio'r "perlau drud",
Hyd eang faes yr Ysgrythurau,
  Bu'n casglu blodau arall fyd.

Ond wele ddyfais dyn yn methu
  Ymestyn oes y bachgen mad,
Rhaid ufuddhau i'r Dwyfol Allu,
  Er chwalu gobaith mam a thad;
Ar ddydd ei angladd daeth cym'dogaeth
  I ddangos gwerth cymeriad glan,
Ac yma gwelwyd mor o hiraeth
  Yn torri'n ddiferynnau man.

Os yw ei gorff yn tawel huno
  Yn Esgerdawe'n erw Duw,
Fe ddeil ei lafur i flaguro,
  A'i ddail yn wyrddlas iawn eu lliw;

Ar aelwyd glyd Rhydfallenissa',
  Y delyn yn friwedig sydd,
Fe aeth anwylun oddi yma,
  I seinio telyn "Gwlad y Dydd".

Rieni a'r chwiorydd annwyl.
  Eich Evan John sydd heddyw fry,
Os daeth yr alwad heb i'ch ddisgwyl,
  Ni wnaeth ond blaenu arnoch chwi;
Gwnewch ymgysuro uwch y graian,
  Wrth blannu blodyn ar ei fedd,
Cewch eto gwrdd yn deulu cyfan,
  Heb 'madael mwy, yn "Ngwlad yr Hedd".

Gwarcoed T. Jones[25]

ER SERCHUS GOF

am

MARY

Annwyl ferch

John a Mary Morgans, Tanyffordd, Esgerdawe,
Yr hon a hunodd ar y dydd cyntaf o'r flwyddyn 1923
YN 25 MLWYDD OED

Yn irder gwanwyn bywyd,
  Ar fore Calan gwyn
Y gwywodd hi, fel lili deg
  Dan farrug oer y glyn.

Addfwynder lanwai'i chalon
  Yn blentyn bach di nam,
Pan oedd ar aelwyd Tanyffordd
  Dan ofal tad a mam.

Er gado'r aelwyd honno
  Yn ieuanc yn ei hoes,
Bu'n ffyddlon i'w cynghorion hwy
  Drwy ddilyn llwybrau moes.

A chariad pur ei chalon
  Yn brigo yn ei gwedd,
Edmygedd pawb ennillodd hi
  Cyn cyrchu min y bedd.

Mae'r Ysgol Sul yn wacach, –
  Ei heilun ydoedd hon;
A drylliog fyth yw tant y cor
  O golli'i hacen lon.

Gofalon agoriadau
  Pyrth Seion arni roed,
Ac ni fu allwedd Teml yr Ior
  Mewn gwynnach llaw erioed.

Ni ddaeth y Saint i'r Capel
  Fyth wedyn ar ei hynt,
Heb gofio gwenau Mary fach
  Oedd ym Mryn'reithin gynt.

Ac er fod heddyw flodau
  Ar fedd y brydferth fun,
Mae'r clwy' yn noeth o hyd – o hyd
  Yng nghalon llawer un.

Ond tystio ar ei beddrod
  Mae'r blodau llon eu gwedd,
Fod Mary'n gwenu megis cynt
  Mewn Byd lle nad oes bedd.

A hyawdl y dwed ei choffa
  Wrth deulu sydd dan glwy' –
"Na fyddwch drist, cawn eto gwrdd,
  A chwrdd heb 'madael mwy".

T. Jones — Gwarcoed[26]

ER SERCHUS GOF

am

DAVID MORGAN

1 Mountain Side, Aberafon (gynt o Troedyrhiw, Esgairdawe)
Hunodd Ebrill 6ed, 1924, Yn 30 Mlwydd Oed

Plygwn heddyw'n dyrfa glwyfus
  Yn y fynwent ar y bryn,
Gyda'r weddw wasga'i baban
  At ei bron, a'i threm yn llyn.

Troi yn ol i lwybrau Dafydd, –
  Cofio ei foreddydd gwiw,
Pan yn blentyn bach yn chwarae
  Gylch hen fwthyn Troedyrhiw.

Dilyn eto'r glaslanc hoyw
  Welwyd ganwaith gyda'r wawr,
A sirioldeb lond ei wyneb,
  Rhwng y defaid yng Nghaemawr.

Cofio am y bachgen syber
  Ar forëau Saboth gwyn,
Hyd ei lwybr garw'n tynnu
  Tua'r Capel ar y bryn.

Cofio amdano'n gado'r ardal, –
  Cofio Esgairdawe'n brudd,
Yntau'n cyrchu tref yr estron, –
  Deigryn hiraeth ar ei rudd.

Gwyn ei fyd er ei ymado
  Tuag Aberafon draw;
Calon ardal ddygodd ganddo, –
  Beibl yn anrheg yn ei law.

Ni bu'n hir 'rol cyrraedd yno
  Cyn i Seion weld ei werth;
Tystia'r Wern fod yn ei fywyd
  Addfwyn, distaw, fôr o nerth.

Bywyd tawel, gwasanaethgar
  Fu ei fywyd ef erioed,
Blin oedd colli un mor hawddgar
  Pan ond deg-ar-hugain oed.

Gwybu londer plant y mynydd,
  Dygodd groesau teulu'r graith,
Melys, melys hun y gweithiwr
  Wedi gorffen dydd o waith.

Duw fo'n nawdd i'r weddw ifanc
  Gollodd wedd ei phriod mad,
Ac Efe fo'n nerth i Elwyn
  Rodio'r byd hyd llwybrau'i dad.

"BRYNDERI"[27]

Wrth derfynu hanes capel neu eglwys, naturiol yw sylweddoli fod yna un llyfr, sef y *Beibl,* sy'n gyffredin i bob lle o addoliad drwy'r wlad, pa enwad bynnag y mae'n perthyn iddo. Nid oes nemor un oedfa'n mynd heibio heb fod y Llyfr hwn yn cael ei ddefnyddio a'i fyfyrio:

*Yr Ysgrythur*

Nid oes i'm tywys ar fy nhaith
  Ond gwerthfawr Air fy Nuw,
Fe bwysaf arno drwy fy oes –
  Fy angor sicr yw.

Ceir ynddo hanes Iesu cu
  Sy'n gyfaill i bob oes,
Ei wyrthiau a'i ddamhegion oll
  A'i gariad ar y groes.

Bu'r Gair yn falm i'r tadau gynt –
  Arferent gadw'r Sul
I ddysgu a myfyrio'n daer
  Reolau'r llwybr cul.

Fe fyddwn heddiw'n dysgu'n llwyr
  Reolau y ffordd fawr
Heb wybod deddfau'r llwybr cul
  Sy'n achub teulu'r llawr.

Nid oes un gyfrol yn y byd
  Mor werthfawr â Gair Duw,
Fe'm deil i'r lan mewn stormydd blin –
  Fy angor sicr yw.[28]

[1]Taflen drwy law M.A. George, Bryndafydd, Esgairdawe.
[2]Cerdd o waith Mary Eunice Williams.
[3]Ibid.
[4]Drwy law'r awdur D.T. Evans.
[5]Ibid.
[6]Ibid.
[7]Ibid.
[8]Ibid.
[9]Ibid.
[10]*Blodeuglwm i Goffa y Parchg. Jonah Evans,* 1907, tt. 130-132.
[11]*Cerddi Ysgol Llanycrwys,* Dan Jenkins, 1934, t. 26.
[12]*Tant y Galon,* E. Tawe Jones, 1980, t. 66.
[13]Ibid, t. 26.
[14]Ibid, t. 48.
[15]Drwy law'r awdur, E. Tawe Jones.
[16]Ibid.
[17]*Y Tyst,* – 'Colofn y Beirdd', Gorffennaf 22ain, 1954.
[18]*Y Genhinen,* Cyfrol VII, – 1956-57, t. 206.
[19]*Y Genhinen,* Cyfrol VIII, – 1957-58, t. 201.
[20]*Dyddiadur* Abel Thomas, 1891, drwy law Miss Rowena Fowler, Rhydaman.
[21]*The Story of Carmarthenshire,* Vol. 2, A.G. Prys-Jones, 1959, tt. 427-28.
[22]*Cerddi Ysgol Llanycrwys,* Dan Jenkins, 1934, t. 116.
[23]Ibid, t. 83.
[24]Ibid, t. 84.
[25]Marwnad drwy law M.A. George, Bryndafydd, Esgairdawe.
[26]Ibid.
[27]Ibid.
[28]Cerdd o waith Mary Eunice Williams.